Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
—
Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Jayne Bryant AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai

31 Hydref 2024

Annwyl Jayne,

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor hwn wedi ymddiddori'n fawr mewn datgarboneiddio tai yn ystod y Senedd hon.

O dilyn eich penodiad diweddar yn Ysgrifennydd Cabinet, teimlaf ei bod amserol ysgrifennu atoch i ofyn am eich blaenoriaethau yn y maes polisi hwn. Yn benodol, byddwch yn ymwybodol i'ch rhagflaenydd roi i Grŵp Gweithredu ar Ddatgarboneiddio Cartrefi Presennol y dasg o baratoi trywydd ar gyfer datgarboneiddio'r stoc tai presennol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am statws y grŵp a'ch cynlluniau ar gyfer bwrw ymlaen â'i waith. Byddwn hefyd yn ddiolchgar pe byddech yn ymrwymo i gyhoeddi trywydd y Grŵp a'ch ymateb iddo.

Gobeithiaf y byddwn yn gallu eich gwahodd i ymddangos gerbron y Pwyllgor maes o law i drafod y maes polisi pwysig hwn ymhellach. Yn y cyfamser, byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb cyn gynted â phosibl, ac erbyn 28 Tachwedd fan bellaf

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.